

















Gwybodaeth Ategol

| | |
|---|--|
|  | <p>Capita ydym ni. Rydym yn cynnal asesiadau Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).</p> |
|  | <p>Gall anfon gwybodaeth gyda'ch ffurflen gais helpu ein gweithwyr iechyd proffesiynol i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch chi.</p> |
|  | <p>Ceisiwch anfon cymaint o wybodaeth ag y gallwch ar ddechrau eich cais.</p> |
|  | <p>Anfonwch unrhyw wybodaeth sy'n esbonio sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch chi.</p> |
|  | <p>Nid oes rhaid i'r wybodaeth fod yn feddygol.</p> |
|  | <p>Mae gwybodaeth gan y bobl sy'n eich adnabod orau yn bwysig iawn.</p> |
|  | <p>Gallech anfon gwybodaeth oddi wrth:</p> <ul style="list-style-type: none">• aelodau'r teulu• ffrindiau• gofalwyr• gweithwyr cymorth |
|  | <p>Anfonwch wybodaeth sydd gennych eisoes yn unig.</p> |

| | |
|--|--|
|  | <p>Rhowch fanylion cyswllt pawb sy'n eich helpu ar eich ffurflen gais.</p> |
|  | <p>Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, efallai y byddwn yn cysylltu â'r bobl ar eich ffurflen.</p> |
|  | <p>Peidiwch â gofyn i'ch meddyg teulu am wybodaeth os oes rhaid i chi dalu amdani.</p> |
|  | <p>Peidiwch ag aros am ragor o wybodaeth cyn dychwelyd eich ffurflen gais.</p> |

Dyma rai enghreifftiau o'r wybodaeth y dylech ei hanfon.

| | |
|---|--|
|  | <p>Gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i ni:</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhestr o feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd |
|  | <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad neu gynllun gofal gan:<ul style="list-style-type: none">- Meddyg Teulu neu feddyg ymgynghorol- Nyrs seiciatrig gymunedol (CPN)- Therapydd galwedigaethol- Gweithiwr cymdeithasol- Tîm cymorth anabledd dysgu |
|  | <ul style="list-style-type: none">• Datganiadau gan ofalwyr neu aelodau o'r teulu, megis dyddiadur gofalwr |
|  | <ul style="list-style-type: none">• Llythyr am eich cyflwr neu ddiagnosis oddi wrth:<ul style="list-style-type: none">- eich meddyg(on) ymgynghorol- yr ysbyty sy'n eich rhyddhau- clinig cleifion allanol |

Dyma rai enghreifftiau o'r wybodaeth na ddylech ei hanfon.

| | | |
|---|---|---|
|  |  | <p>Nid oes angen i chi anfon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cardiau neu llythyrau apwyntiad |
|  |  | <ul style="list-style-type: none"> • Llythyrau derbyn i'r ysbyty |
|  |  | <ul style="list-style-type: none"> • Taflenni ffeithiau am eich cyflwr, diagnosis neu'r meddyginiaethau rydych yn eu cymryd |
|  |  | <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth am brofion y byddwch yn eu cael |
|  |  | <ul style="list-style-type: none"> • Tocynnau bws neu drên a chyfarwyddiadau neu fapiau i apwyntiadau yr ydych wedi bod iddynt |
|  |  | <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth rydych wedi'i hanfon at DWP o'r blaen ar gyfer PIP |
|  |  | <ul style="list-style-type: none"> • Cofiwch, peidiwch â thalu am unrhyw wybodaeth feddygol. |

Sut i gysylltu â ni os ydych angen cefnogaeth

| | |
|---|--|
|  A hand holding a white card with the text "Contact us" written on it. | <p>Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich asesiad, cysylltwch â.</p> |
|  A blue rectangular sign with the word "OPEN" written in white capital letters, hanging from a string. | <p>Rydym ar agor 8am i 8pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.</p> |
|  A close-up photograph of a woman's face as she talks on a mobile phone. | <p>Gall rhywun arall alw amdanoch. Bydd angen iddynt wybod eich rhif Yswiriant Gwladol.</p> |
|  A black silhouette of a telephone handset with three curved lines above it representing sound waves. | <p>Ffoniwch ni am ddim ar 0808 178 8114 (llinell Gymraeg 0808 178 8115).</p> |
|  A blue square icon containing a white telephone handset and a speech bubble with an equals sign inside. | <p>Os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn, gallwch ddefnyddio NGT neu Relay UK: 18001 ac yna 0808 178 8114.</p> |
|  A black silhouette of two hands, one larger than the other, with fingers spread. | <p>Os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyfnewid Fideo.</p> <p>Teipiwch y ddolen hon i'ch porwr rhyngrwyd: www.capita-pip.co.uk/cy/cysylltwch-ni</p> <p>Sgroliwch i lawr i "Gwasanaeth cyfnewid fideo" a chliciwch ar y ddolen.</p> |



Gallwch hefyd ysgrifennu atom:

Capita PIP
PO Box 307
Darlington
DL98 1AB



Neu e-bostio ni: **contactus@capita-pip.co.uk**

I gael rhagor o wybodaeth am PIP, ewch i www.gov.uk
Chwiliwch am **Easy Read Personal Independence Payment.**